Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 02-07-19 – 7.30pm**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Gwenan Roberts, Geraint Owen a Delyth Wynne (Clerc) Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase ac Austin Roberts<br>Marion Pryor, Archwilydd Mewnol |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Arthur Williams a Gwilym Williams |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod a Marion Pryor yr Archwilydd.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (04/06/19).

   Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng John ac eiliwyd gan Cyng Geraint.

   - Newid i'r Cofnodion - Conwy Cynhaliol – Jutta Kubis nid Uta.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Cyfrifon 2018/19 - Adroddiad Awdit Mewnol:** Marion Pryor.

   - Aeth Marion trwy'r rhestr wirio oedd angen iddi arwyddo;
   - Angen rhestr risg i ddangos amcanion/dyheadau – beth sydd yn mynd i atal y cyngor cymuned o wireddu'r amcanion yma a sut y medrwn oresgyn unrhyw rhywstrau;
   - Copi Saesneg o gofnodion mis Tachwedd eu hangen;
   - Angladdau – derbynebau ymgymerwyr eu hangen;
   - Cofnodion – datganiadau diddordeb – Cyng Ceri a Cyng Gwenan angen arwyddo – gwnaed hyn yn y cyfarfod;
   - Datganiadau diddordeb – Cyng Wendy a Cyng Phyllis angen rhoi eu cyfeiriad – gwnaed hyn yn y cyfarfod;
   - Datganiadau diddordeb - dim ar goll;
   - Datgan diddordeb o diddordeb ariannol – ffurflen ar wahan i'w llenwi;
   - Cymodi a datganiad ariannol i'w wneud.

- **Arwydd Dehongli:**
  Trafodwyd os oedd angen cais cynllunio i symud yr arwydd - Cyng Austin i holi.

- **Llosgi Ysbwriel – Penthryn**
  Cyng Austin yn dweud ei fod wedi cael ymateb. Methu cael gafael ar y perchennog Mae'r ty ar werth ac am gysylltu gyda'r asiant.

- **Polyn Banner:**
  Mr Gwyn Williams wedi trosglwyddo'r goriad i Mr Paul Williams a mae'r baner i fyny. Cyng Austin i gysylltu.

- **Tyllau ar Ffordd Maenan (Allt y Rhiw): Clerc i gysylltu gyda ERF**
  Cyng Austin yn dweud y bydd y tyllau yn cael eu gwneud pan fydd ganddynt amser ac arian.

- **Ffordd Rhiwlas: Clerc i gysylltu gyda ERF**
  Cyng Austin yn dweud y bydd y tyllau yn cael eu gwneud pan fydd ganddynt amser ac arian.

- **Llwybr Chwarel y Nant:**
  Dim diweddariad.

- **Petitiwn – defnydd o Glyphosate gan CBSC:**
  Y clerc wedi derbyn ymateb. Does dim polisi gan CBSC ynglyn a defnyddio Glyphosate.

- **Goleuadau stryd:**
  Rhai goleuadau wedi eu newid i 'LEDs'.

- **Y Fynwent:**
  Y Cadeirydd wedi siarad gyda Mr Wil Williams. Ddim yn hapus i gadw rhai llefydd heb eu torri.

6. **CYNLLUNIO**

Cyng Austin methu bod yn rhan o'r drafodaeth datganodd oherwydd ei fod ar Bwyllgor Cynllunio CBSC.

0/45665 Mrs Eirian Davies
Annedd masnach wledig arfaethedig a gosod tanc trin dŵr - Tir yn Penisa'r Waen, Ffordd Gyffylog / *Proposed rural enterprise dwelling and installation of treatment tank – Land at Penisa'r Waen, Ffordd Gyffylog.*

Apêl Cynllunio / Planning Appeal.

0/46319 Mr & Mrs Geraint Davies
Newidiadau i ddrychiad blaen tŷ ac estyniad bach i'r ystafell amlbwrpas yn y cefn, addasu adeilad allanol cyfagos i ddarparu anecs at ddefnydd y teulu / *Alterations to front elevation of house and small rear utility extension, conversion of adjacent outbuilding to produce annex for family use* - Mount, Ffordd Pennant

Dim gwrthwynebiad.

0/46368 SP Energy Networks
Llinell wasanaeth foltedd isel bresennol uwchben, angen caniatad ôl-weithredol ar gyfer ail gyflenwad tanddaearol / *Existing LV overhead service line, requiring retrospective planning for a second underground supply.*
Bryn Rhyd Barn, Ffordd Llyn Syberi

Dim sylw.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £6,473.05
Angladdau - £1,938.20
Cadw - £2,073.99

**Sieciau:**
**Cyfredol:**
- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £98.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00

**Angladdau:**
- Wil Williams - £345.00
- Eglwys St Martin's - £700.00

Angen i'r holl gynghorwyr arwyddo'r mandad.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Coed Cadw – Coeden y Flwyddyn:**
  Noder y wybodaeth. Y Clerc i yrru'r gwybodaeth i'r Cynghorwyr.

- **E-Bost: Gofal Cymdeithasol Cymru – Gofalu trwy'r Cymraeg:**
  Noder y wybodaeth. Y Clerc i yrru'r gwybodaeth i'r Cynghorwyr.

- **E-Bost: Adolygu Dosbarthiadau Etholiadol, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio:**
  Noder y wybodaeth. Y Clerc i yrru'r gwybodaeth i'r Cynghorwyr.

- **E-Bost - Eisteddfod Genedlaethol Cymru - Ymgyrch Croeso Conwy Eisteddfod 2019**
  Noder y wybodaeth.  Y Clerc i yrru'r gwybodaeth i'r Cynghorwyr.

  Dim bws i'r Eisteddfod ar ddydd Sadwrn y 10fed oherwydd y Sioe.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Torri glaswellt yn y Fynwent:
  Mae coed ywen wedi gor dyfu yn y fynwent  - nid coed y cyngor cymuned ydy rhain felly mae rhaid derbyn caniatâd.  Cyng Ceri i drafod gyda'r Archddiacon dydd Llun.  Os ydy'r Archddiacon yn rhoi caniatâd cytunodd y Cynghorwyr i roi caniatad i Wil dorri'r canghenau am gost o £40.00;
  Clawdd rhwng Heol Martin a'r Fynwent – Wil wedi gofyn caniatâd  i'w dorri am bris o £150.00.  Cynghorwyr yn cytuno a hyn.
  Gofynodd Wil os y buasai yn cael torri'r glaswellt bob pythefnos am bris o £40.00.  Ni gytunodd y Cynghorwyr i hyn ar yr amser yma.  Penderfynwyd ail edrych ar y sefyllfa blwyddyn nesaf.
- Wendy Martin yn gofyn pam oedd y glaswellt ond yn cael ei dorri o gwmpas y siglenni yn y parc a glaswellt y cae pel droed yn hir.  Hefyd mae arwydd 'dim beiciau' ond mae raciau beic yno.
- Camfa wrth Y Berllan wedi torri ac angen ei drwsio.
- Ian Shutes – mae gyrru trwy'r pentref yn gwaethygu.  Mae plant yn reidio beic/sglefrfwrdd/sgwter ynghanol y Ffordd a rhai plant heb helmed.  Cysylltu gyda Heddlu/PCSO.  Cyng Ceri i roi adran ar 'Diogelwch Ffordd' ar 'Facebook'.
- Adlewyrchyddion dal heb eu newid wrth yr Eglwys;
- Y Plas – ffens yn disgyn i mewn i'r afon.  Cyng Austin i gysylltu â CBSC;
- Coeden cofeb wedi eu blanu wrth yr hen swyddfa bost – gafodd hyn ei drafod mewn cyfarfod cyngor cymuned;
- Mae Gwaith ar y bont wedi ei orffen a'r llwybr.  Cyng Austin yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion am lygredd.  Cyng Austin wedi hysbysu Bryn Shiland, ERF a wedi gofyn i unrhyw ollyngiadau gael eu llnau;
- Hen Efail – trwsio'r bont ar hyn o bryd;
- Cewyllau cerrig wedi eu gosod mewn gardd ty yn Heol Fynnon Asa sydd ger yr afon;
- Mae CBSC yn gosod cyrbau newydd ar y ffordd i mewn i'r pentref – maent wedi rhoi bolardiau yn lle rhai ohonynt.  Maent yn mynd i ail-wynebu y ffordd i'r pentref;
- Henblas – Mae Cyng Austin wedi siarad gyda Richard am CBSC yn tresmasu ar ei dir. Dangosodd Richard y draen sydd yn llenwi o hyd i Cyng Austin ac mae Richard yn hapus i osod draen mwy yno.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

18/07/19, 03/09/19, 01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.25 o’r gloch.